# CYFANSODDIAD
# YR EGLWYSYNG NGHYMRU
# CYFROL I

## PENNOD IV D
## TREFNIADAU TIRIOGAETHOL

**Rhifyn 1**
**Ebrill 2010**

# PENNOD IV D

## TREFNIADAU TIRIOGAETHOL

| | |
|---|---|
| **Rhan I:** | **Cyffredinol** |
| | 1 |
| | 2 |
| | 3 |
| | 4 |
| | 5 |

## Pennod IV

## D: TREFNIADAU TIRIOGAETHOL

1.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cyfansoddiad, bydd trefniadau tiriogaethol presennol y gwahanol Esgobaethau dan eu gwahanol Esgobion Cadeiriol, a'r gwahanol fröydd a Phlwyfi a Grwpiau o Blwyfi dan y gwahanol bersonau eglwysig sy'n gofalu amdanynt, yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

2.

Gall Esgob unrhyw Esgobaeth, gyda chaniatâd Cynhadledd ei Esgobaeth, wneud unrhyw newid a farno'n briodol i drefniant tiriogaethol ei esgobaeth.

3.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 2, bydd Cynhadledd yr Esgobaeth, neu ei Phwyllgor Sefydlog os awdurdodwyd ef i hynny gan y Gynhadledd, yn cydweithredu â'r Esgob:

(*a*) i newid ffiniau unrhyw Blwyf;

(*b*) i ddaduno Plwyf unedig;

(*c*) i dynnu ymaith ddarn neu ddarnau o unrhyw blwyf a chorffori'r cyfryw mewn Plwyf cyffiniol;

(*d*) i droi rhan o fywoliaeth neu Blwyf, neu rannau o fwy nag un fywoliaeth neu Blwyf, yn fywoliaeth neu Blwyf ar wahân;

(*e*) i gasglu mwy nag un fywoliaeth neu Blwyf dan un Periglor;

(*f*) i ad-drefnu neu ddatod cyfuniadau o Blwyfi a fu neu sydd yn awr neu a fydd rhag llaw wedi'u cyfuno dan un Periglor;

(*g*) i uno neu gyfuno, yn barhaol neu dros dro, ddau neu fwy o blwyfi yn un Plwyf;

(*h*) i grwpio eglwys heb ardal ag unrhyw Blwyf (lle y dymunir hynny gan y clerigion-mewn-gofal o'r eglwysi);

(*i*) i osod unrhyw eglwys sydd heb ardal i fod yn eglwys neu gapel mewn bywoliaeth neu Blwyf; neu

(*j*) i ffurfio unrhyw ardal (boed yn un neu ragor o Blwyfi neu rannau o'r cyfryw) yn blwyf a fydd i'w adnabod fel Bywoliaeth Reithorol neu i ad-drefnu neu newid neu ddiddymu Bywoliaeth Reithorol;

ac eithrio na wneir byth unrhyw newid i ffiniau presennol Plwyfi nac unrhyw newid i unrhyw grŵp o Blwyfi, os golyga'r newid gostau ychwanegol, heb ganiatâd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

4.

(1) Gwneir unrhyw newid i drefniadau tiriogaethol presennol yr Esgobaeth trwy Orchymyn, na ddaw i rym nes ei arwyddo gan yr Esgob a'i osod yng Nghofrestrfa'r Esgobaeth.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), bydd gorchymyn o'r fath yn gwneud darpariaethau ac yn rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â:

(*a*) yr hawl i ddefnyddio eglwys y Plwyf a phob eglwys arall yn yr ardal;

(*b*) pa eglwys, mewn Plwyf a ffurfir trwy uno neu gyfuno dau neu ragor o Blwyfi, fydd eglwys y plwyf neu eglwysi'r plwyf;

(*c*) bedyddio, priodi, a chladdu;

(*d*) y modd yr etholir cynrychiolwyr lleyg, os bydd rhai, i Gynhadledd y Ddeoniaeth;

(*e*) beth sydd i'w wneud ynglŷn â rhol yr etholwyr, y Festri a chyfarfodydd eraill, Wardeniaid eglwys, Ystlyswyr, a'r Cyngor Plwyf Eglwysig; a

(f) gyda golwg ar grwpio Plwyfi, neu ad-drefnu neu ddiddymu grŵp, pa un o'r tai yn y grŵp fydd y persondy y disgwylir i'r Periglor fyw ynddo yn unol â Rhan VIII Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud a Phersondai.

Ni bydd y gorchymyn yn ddilys heb y ddarpariaeth a'r cyfarwyddiadau hyn.

(3) Yn achos gorchymyn a fydd yn ffurfio neu ad-drefnu neu newid Bywoliaeth Reithorol, bydd gorchymyn o'r fath, yn ychwanegol at y materion a draethir yn is-adran (2), yn gwneud darpariaethau ac yn rhoi cyfarwyddiadau ynglyn ag:

(*a*) awdurdod y Ficer, a'r swyddi, y dyletswyddau a'r gwasanaethau i'w cyflawni ganddo, yn cynnwys dyletswyddau neu gyfrifoldebau arbennig neu hebddynt;

(*b*) cyfarfodydd rhwng y Rheithor a'r Ficer neu'r Ficeriaid, mewn cabidwl neu fel arall;

(*c*) hawliau'r Rheithor a'r Ficer neu'r Ficeriaid ynglŷn ag offrymau Pasg a thaliadau gwenwisg a thaliadau eraill;

(*d*) os bydd Bywoliaeth Reithorol yn cynnwys mwy nag un Plwyf, y materion y darperir ar eu cyfer yn adran 4(2), *mutatis mutandis*; a

(*e*) y materion eraill hynny a farno'r Esgob yn angenrheidiol.

Ni bydd y gorchymyn yn ddilys heb y ddarpariaeth a'r cyfarwyddiadau hyn.

5.

Bydd gan Gynhadledd yr Esgobaeth y gallu i wneud rheolau at gyflawni pob un o'r newidiadau a wneir dan yr adrannau blaenorol.